Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Voyage (DCA) Powys**

**Cwrt Cae Felin**
**Y Trallwng**
**SY21 7FD**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

27/06/2024

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Voyage (DCA) Powys

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Voyage 1 Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Awst 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff sy'n cael eu harwain yn dda ac yn ymrwymedig i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r tîm rheoli yn gweithio'n galed i greu diwylliant cadarnhaol lle gall y staff gofal deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cymell i roi cymorth effeithiol a chyson i'r bobl.

Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac wedi'u teilwra at eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Mae cymorth i'r staff gofal wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf gyda chyfarfodydd un i un rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'u rheolwr llinell. Mae'r rhaglen hyfforddiant yn helpu i sicrhau bod y staff gofal yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu eu sgiliau er mwyn rhoi'r cymorth cywir i'r bobl. Mae'r arferion recriwtio cadarn yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel.

Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth. Rhoddir ystyriaeth i safbwyntiau'r bobl fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Caiff adroddiad bob chwe mis ar ansawdd y gofal ei gwblhau, sy'n dangos beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain a chânt wneud penderfyniadau am eu bywydau bob dydd. Mae'r staff gofal yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod gan y bobl lais. Mae eiriolwyr allanol ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol i wneud penderfyniadau pan fo angen. Caiff cynlluniau personol eu cynhyrchu ar y cyd ag unigolion a/neu eu cynrychiolwyr i wneud yn siŵr bod eu safbwyntiau, dewisiadau a dyheadau yn hysbys. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r tîm rheoli yn cwrdd â'r bobl yn rheolaidd gan roi'r cyfle iddynt roi eu barn ar y gwasanaeth. Mae gwybodaeth am yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu ar gael mewn sawl fformat ac yn Gymraeg a Saesneg. Gall dogfennau yn cynnwys cynlluniau personol fod ar gael yn ddwyieithog.

Mae'r bobl yn cael cymorth i reoli eu hiechyd corfforol a'u llesiant emosiynol. Caiff atgyfeiriadau amserol eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Gofynnir am gyngor meddygol lle y bo angen. Mae'r unigolion yn dewis gyda phwy i dreulio amser gan gynnwys ffrindiau a theulu. Cânt eu cefnogi i fod mor annibynnol ag y gallant fod ac i fyw bywyd boddhaus gan wneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Rhoddir cymorth i gyflawni nodau personol, p'un a yw hynny i gael deiet mwy iach neu i fynd ar wyliau y maent bob amser wedi bod am wneud, gan dîm o staff ymroddedig a gofalgar, sy'n frwdfrydig ynghylch gwella bywydau pobl. Roedd hyn yn amlwg pan wnaethom gwrdd â'r bobl, ac yn ein harsylwadau a thrafodaethau â'r staff gofal.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff y bobl eu cadw mor ddiogel â phosibl. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gadw'r bobl yn ddiogel a beth i'w wneud os byddant yn teimlo bod llesiant unigolyn mewn perygl. Maent yn cael hyfforddiant ar ddiogelu a gallant gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau i arwain eu harfer. Mae arferion recriwtio a chynlluniau personol manwl ac asesiadau risg yn helpu i hyrwyddo diogelwch a llesiant y bobl.

Os bydd ei angen, mae cymorth ar gael i'r bobl reoli eu tenantiaethau. Maent yn dewis yr hyn y maent am ei gael yn eu cartref. Roedd y cartrefi a welsom yn adlewyrchu personoliaethau'r bobl ac roeddent yn cynnwys eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod unrhyw gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio mewn cyflwr da.

## Gofal a Chymorth

Caiff gofal a chymorth eu rhoi gan dîm o staff cyfeillgar ac ymroddedig. Mae'r broses recriwtio wedi gwella, sy'n golygu bod y timau yn fwy sefydlog ac felly yn fwy cyfarwydd i'r bobl. Mae'r staff gofal yn gweithio'n galed i gael cyfleoedd i'r unigolion wneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn eu helpu i gyrraedd eu llawn botensial. Mae hyn yn cynnwys mynd i wasanaethau dydd, lleoliadau gwaith, a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy gwblhau cyrsiau coleg. Cânt eu cefnogi i ddysgu sgiliau byw bob dydd a magu hyder mewn meysydd fel rheoli arian. Mae'r bobl yn canmol y cymorth y maent yn ei gael i wneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus fel mynd i siopa, neu fynd allan am bryd o fwyd. Yn yr un modd, cânt eu cynnwys mewn digwyddiadau cymdeithasol yn eu cymuned fel nosweithiau cwis a disgo. Caiff gwyliau eu cynllunio â chefnogaeth gan y staff gofal sy'n siarad yn frwdfrydig am y ffordd y maent yn cynllunio'r rhain gyda'r unigolion, sydd wedi gwella eu llesiant a helpu i ddatblygu eu sgiliau bywyd ymhellach.

Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau personol ac adolygu gwybodaeth yn rheolaidd, i sicrhau eu bod yn gyfredol o hyd er mwyn i'r staff eu dilyn. Mae'r cofnodion gofal yn fanwl, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn dangos yn glir y gofynnir i'r unigolion am yr hyn sy'n bwysig iddynt, yr hyn y maent am ei gyflawni a'r cymorth sydd ei angen arnynt i wneud hyn. Mae'r tîm gofal yn adnabod y bobl yn dda iawn a gallant gynnig y cymorth cywir i weithio tuag at ganlyniadau personol. Mae asesiadau risg ar waith i gefnogi'r bobl i barhau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan hybu eu hannibyniaeth a chadw mor ddiogel â phosibl ar yr un pryd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Mae'r cofnodion yn dangos mewnbwn gan weithwyr proffesiynol allanol gan gynnwys seiciatrydd, therapyddion galwedigaethol a thimau lleferydd ac iaith. Caiff ymgyngoriadau â gweithwyr cymdeithasol eu cynnal yn rheolaidd. Mae cyfarpar arbenigol ar gael i'r bobl sydd ei angen. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar eu defnyddio ac ar unrhyw anghenion iechyd penodol fel epilepsi. Caiff y bobl eu cefnogi â chynlluniau bwyta'n iach y maent yn eu cynhyrchu ar y cyd â'r staff gofal, gan osod nodau a chynlluniau realistig ar gyfer yr hyn y maent am ei gyflawni.

Mae prosesau ar waith i gefnogi trefniadau trin a rhoi meddyginiaethau'n ddiogel i'r bobl. Rhoddir hyfforddiant i'r staff gofal a chaiff eu cymhwysedd i barhau i roi meddyginiaeth ei wirio'n rheolaidd. Mae gwybodaeth ar gael yng nghartrefi'r bobl gan gynnwys polisïau meddyginiaeth i arwain y staff gofal. Gwelsom fod y cofnodion yn cael eu cwblhau'n llawn. Caiff archwiliadau eu cynnal yn rheolaidd fell y gellir nodi a datrys unrhyw faterion mewn perthynas â'r holl agweddau ar reoli meddyginiaeth yn gyflym.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi sicrhau bod y systemau ar waith yn galluogi'r gwasanaeth i gael ei oruchwylio'n dda ac i ysgogi gwelliannau. Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed llawer o newidiadau i arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn ddieithriad, dywedodd y bobl wrthym fod y newidiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n cael cymorth a'r staff gofal. Mae hyn am fod y tîm rheoli yn creu diwylliant cadarnhaol lle gall y bobl deimlo y gwrandewir arnynt a bod eu holl syniadau yn cael eu hystyried. Caiff arferion da a chyflawniadau cadarnhaol eu rhannu drwy'r cwmni er mwyn i bawb weld. Mae'r rheolwyr yn weladwy ac yn ymweld â'r bobl yn eu cartrefi'n rheolaidd. Mae'r bobl a'r staff gofal yn gyfforddus yn eu presenoldeb sy'n dangos bod cydberthnasau da wedi cael eu meithrin. Gwelsom fod y tîm rheoli yn agored, yn onest, ac yn awyddus i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd gyda nhw.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff gofal sy'n cael eu recriwtio'n ddiogel, eu cefnogi'n dda, ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach. Mae'r cofnodion recriwtio a welsom yn dangos bod yr holl wiriadau gofynnol gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith cyn i'r staff newydd ddechrau gweithio. Cânt eu cefnogi i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y cynllun sefydlu yn dda a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda drwy'r broses hon. Mae cymorth i'r staff a'r hyfforddiant wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r staff gofal yn dweud bod y cyfleoedd hyfforddiant yn dda. Mae'r cofnodion a welsom yn cadarnhau hyn ym mhob maes gan gynnwys epilepsi a dysffagia. Mae'r staff allweddol wedi cael eu hyfforddi i ddarparu hyfforddiant penodol megis codi a chario a chymorth bywyd sylfaenol. Mae hyn yn helpu i sicrhau y caiff yr hyfforddiant hwn ei ddarparu'n gyflym. Mae cysondeb y sesiynau goruchwylio ac arfarnu wedi gwella. Mae cofnodion yn dangos hyn ond dywedodd y staff gofal wrthym y gallant fynd at unrhyw aelod o'r tîm rheoli ar unrhyw adeg, a'u bod yn teimlo y gwrandewir arnynt. Maent yn canmol y trefniadau ar alwad gan ddweud bod y ffôn bob amser yn cael ei ateb a bydd y rheolwyr yn dod i gwblhau shifft eu hunain yn ystod y dydd a'r nos. Heb eithriad, dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli sy'n hawdd mynd ato ac yn eu gwerthfawrogi nhw a'r gwaith a wnânt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn newydd yn y rôl hon ers yr arolygiad diwethaf. Mae wedi cwblhau ymweliadau â'r gwasanaeth ac yn cymryd amser i siarad â'r rheolwyr, y staff gofal a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae cofnodion o'r ymweliadau yn dangos y rhoddir ystyriaeth i'r holl agweddau ar y gwasanaeth a nodir y camau gweithredu er mwyn mynd ar eu trywydd. Mae'r rheolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol sy'n bob amser yn ymatebol. Mae'r adroddiad bob chwe mis ar ansawdd y gofal yn dangos y

ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu ac yn adlewyrchu'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl staff yn cael sesiwn goruchwylio un i un yn rheolaidd, o leiaf unwaith bob chwarter. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant priodol er mwyn gallu diwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi, a sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gloywi mewn modd amserol, lle mae'r hyfforddiant wedi dyddio. | Cyflawnwyd |

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi